**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 11 Mehefin 2020 am 10.30am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Penfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Edward Tomp | Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd |
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Abertawe (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jason Garcia | Arweinydd Tîm (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| Jon Haswell | Swyddog A151 (Cyngor Sir Penfro) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - Y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog A151 ar y Cyd (Cyngor Sir Gâr) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
Steve Phillips (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)) a/ac Ian Westley (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro))

## 55 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd Wendy Walters (Prif Weithredwr Cyngor Sir Gâr) gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 64 "Penodi Uwch-swyddog Cyfrifol" a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

## 56 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

## 57 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

### 1) Cyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe o bell

Croesawodd y Cynghorydd Rob Stewart (Cadeirydd) bawb i gyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe o bell.

### 2) Prosiect Morol Doc Penfro

Nododd y Cynghorydd David Simpson fod Prosiect Morol Doc Penfro wedi derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Nododd y byddai hyn yn flaenllaw i Sir Benfro. Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

## 58 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 59 Cynllun Archwilio 2020 Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Jason Garcia (Swyddfa Archwilio Cymru) Gynllun Archwilio 2020 Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor o'r cynllun ac yn darparu cwmpas o ran archwiliad allanol Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** adolygu a chytuno ar y cynllun arfaethedig a chwmpas archwiliad allanol Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 60 Cytundebau Ariannu.

Cyflwynodd Swyddog 151 y Cyd-bwyllgor (Chris Moore) adroddiad a oedd yn nodi'r trefniadau ariannu ar gyfer rheoli'r broses o ryddhau arian y Fargen Ddinesig i Bartneriaid Cyflwyno.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r trefniadau ariannu templed a nodwyd yn Atodiadau A a B yr adroddiad a'u mabwysiadu i reoli'r broses o ryddhau arian o'r rhaglen i'r cynghorau a'r partneriaid cyflwyno:

    i) Atodiad A - cytundeb safonol rhwng y Corff Atebol a'r awdurdod sy'n arwain y prosiect;

    ii) Atodiad B - cytundeb ar ffurf templed i'w ddiwygio gan yr awdurdod sy'n arwain y prosiect er mwyn ei wneud yn addas ar gyfer y cytundeb â'r parti cyflwyno;

2) Dirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 152 Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r Swyddog Monitro iddyn nhw wneud unrhyw ddiwygiadau hanfodol ac angenrheidiol i'r cytundeb templed yn Atodiad A yr adroddiad.

## 61 Dosbarthiad Llog Buddsoddi.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Chris Moore) adroddiad a oedd yn nodi'r argymhellion mewn perthynas â thrin y llog a enillwyd drwy fuddsoddi gweddillion ariannol y rhaglen.

**Penderfynwyd** cytuno ar Opsiwn 2, fel a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â'r llog a enillwyd o ganlyniad i fuddsoddi gweddillion ariannol y rhaglen. Mae Opsiwn 2 fel a ganlyn:

"Mae'r llog a gynhyrchir yn cael ei ailddosbarthu'n uniongyrchol i brosiectau yn ôl y dyraniad a amlinellir yn y prif delerau gwreiddiol."

## 62 Diweddariad am Brosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Darparodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) ddiweddariad ar y prosiectau sy'n llunio rhan o Raglen y Fargen Ddinesig. Mae'r prosiectau hynny'n cynnwys:

- Prosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Datblygiad Gwyddor Bywyd a Lles a gynllunnir ar gyfer Llanelli;
- Prosiect Campws Gwyddor Bywyd a Lles;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Isadeiledd Digidol;
- Sgiliau a Thalentau;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Yr Egin.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariadau a'r cynnydd.

## 63 Achos Busnes Cartrefi fel Gorsafoedd Pwer.

Darparodd Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE) (Ed Tomp) adborth gan y BSE mewn perthynas â'r Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.  Diolchodd i Gyngor Castell-nedd am eu gwaith mewn perthynas â'r prosiect.  Dywedodd ei fod wedi argymell y prosiect i'r Cyd-bwyllgor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Rob Jones a Nicola Pearce adroddiad a oedd yn rhoi adborth gan y BSE ac a oedd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno achos busnes model pum achos yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais ffurfiol ar gyfer achos busnes model pum achos Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer sy'n ceisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU;

2) Rhoi'r pwerau dirprwyedig i wneud unrhyw fân ddiwygiadau i'r achos busnes yn ôl yr angen er mwyn cael cymeradwyaeth i Brif-berchennog cyfrifol y prosiect.

## 64 Penodi Uwch-berchennog Cyfrifol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn ceisio penodi Prif-berchennog Cyfrifol sy'n atebol i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod gan raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe lywodraethu priodol ar waith.

**Penderfynwyd** penodi Cadeirydd Bwrdd Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel y Prif-berchennog Cyfrifol ar gyfer rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 65 Strwythur Swyddfa Rheoli Rhaglenni.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Strwythur y Swyddfa Rheoli Rhaglenni.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Mae Opsiwn B2 fel y'i nodir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo fel Strwythur y Swyddfa Rheoli Rhaglenni i alluogi recriwtio ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglenni;

2) Adolygu Strwythur y Swyddfa Rheoli Rhaglenni o fewn 12 mis.

## 66 Cofrestr Risgiau'r Rhaglen a Chofnod o Faterion y Prosiect.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn ystyried materion cyfredol y prosiect a risgiau uniongyrchol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** nodi materion diweddaraf y prosiect a risgiau'r rhaglen.

## 67 Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP). (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am ddatblygiad Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig ar gyfer rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** nodi'r cynnydd a wneir ar ddatblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig ar gyfer rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 68 Adborth gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE). (Llafar)

Nododd Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (Ed Tomp) ei fod wedi darparu adborth i'r Bwrdd Strategaeth Economaidd yn gynharach yn y cyfarfod dan Gofnod 63 "Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer".

Daeth y cyfarfod I ben am 11.40 am

**Cadeirydd**